ADRODDIAD YSGOL EIFIONYDD
Mai 2016

Llongyfarchiadau mawr i Miss. Catrin Elan sydd wedi ei hapwyntio i swydd athrawes y Gymraeg a Saesneg barhaol yn yr ysgol. Croeso hefyd i Mrs. Shan Gwenfron Jones i weithio yn swyddfa'r ysgol yn dilyn ymddeoliad Mrs.Pat Williams. Dymuniadau gorau i'r ddwy a gobeithio y byddant yn hapus iawn yma yn Eifionydd.

Bu tri o ddisgyblion Bl.9 sef Millie, Lleucu ac Elgan yn brysur yn cymryd rhan mewn rhaglen deledu, sef Llwyddodd Millie i ennill ei ffordd i'r rownd derfynol fydd yn cael ei ffilmio. Pob lwc Millie!

Noson Wobrwyo

Nos Wener, Mai 6ed cynhaliwyd noson wobrwyo flynyddol Ysgol Eifionydd yng Nghlwb Golff Porthmadog, Morfa Bychan. Yn ôl yr arfer cyflwynwyd gwobrau ar ddechrau'r noson ac yna mwynhawyd gwledd a disgo i ddilyn. Yr oedd pob un o'r disgyblion yn werth eu gweld a phawb wedi mwynhau yn arw. Diolch o galon i bawb fu o gymorth i sicrhau llwyddiant y noson arbennig yma sy'n benllanw i gyfnod Bl.11 yn yr ysgol. Dyma restr o'r enillwyr a llongyfarchiau calonnog i bob un ohonynt:-

GWAITH CWRS	CATRIN ROBERTS
ESIAMPL I ERAILL	SOPHIE THOMAS
DATBLYGIAD PERSONOL	HARRY HOLLAND
PEL DROED	MATH ROBERTS (TARIAN)
CHWARAEON	IWAN DAVIES
DIWYLLIANNOL	ANNA FÔN LANE ac ERIN ROBERTS

Perfformiad gorau mewn pwnc

CYMRAEG	ENLLI THOMAS
CYMRAEG AIL IAITH	JADE STEVENSON
SAESNEG	SION A EVANS
MATHEMATEG	ANDREW THOMAS
GWYDDONIAETH	EMILY MABBOTT
ARLWYO	MARI FFLUR JONES
DATBLYGIAD Y PLENTYN	ERIN PARRY
DYLUNIO A THECHNOLEG – DYLUNIO CYNNYRCH	SOL KEMPSTER
DYLUNIO A THECHNOLEG – CYNHYRCHION GRAFFEG	ALAW JONES
DYLUNIO A THECYNOLEG – DEFNYDDIAU GWRTHIANNOL	CERYS JONES
ADDYSG GREFYDDOL	HANNAH GRIFFITHS
HANES	CALEB LEWIS
DAEARYDDIAETH	ARON JONES
CERDD	STEFFAN JONES
CELF	FRAN HARTILL
FFRANGEG	CARWYN THOMAS

TGCh	SARAH TAYLOR
BUSNES	GWENNO HUGHES
PEIRIANNEG	MARC THOMAS
Y GYFRAITH	MEGAN POWELL
ADEILADWAITH	GRUFFYDD OWEN
AMAETHYDDIAETH	GUTO OWEN
CELFYDDYDAU PERFFORMIO	ALICE EVANS

Rygbi

Cynhaliwyd Twrnament Rygbi 5x60 yng Nghaernarfon ar Ebrill 29ain. Llwyddodd tîm o fechgyn Bl.7 i ennill y twrnament . Llongyfarchiadau mawr i'r hogiau a llawer o ddiolch i Mr. Gareth Crowe am eu hyfforddi.

Hoci

Llonyfarchiadau i tim hoci Bl 7 am ddod yn ail yn Nhwrnament Hoci ym Mhlas Silyn. Da iawn chi genod am wneud mor dda yn eich twrnament cyntaf.

Pêldroed

Dymuniadau gorau i ddwy o ddisgyblion Bl.10 yr ysgol, sef Cassia Pike a Shannon Dukes sydd wedi cael eu dewis ar gyfer carfan merched dan 17oed Cymru. Bu'r ddwy i lawr yng Nghaerdydd am dridiau yn ddiweddar yn ymarfer gyda'r garfan. Llongyfarchiadau mawr a daliwch ati genod! Dyma llun y tim.